# Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd
2021-22



@CyngorGwyneddCouncil

@CyngorGwynedd

01766 771000

www.gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD

# Rhagair




Mae'r Adroddiad Blynyddol hyn yn dod wedi diwedd fy nghyfnod fel yr Aelod Etholedig gyda chyfrifoldeb dros gydraddoldeb. Wedi dweud hynny, mae cydraddoldeb yn faes sy'n bwysig iawn i mi ac fel Dirprwy Arweinydd y Cyngor mi fydda i'n bendant yn parhau i hybu'r maes yn enwedig gan fod y prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb yn un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

Mae'n rhaid dweud fod y ddwy flynedd ers i Gynllun Cydraddoldeb 2020-24 gael ei fabwysiadu gan y Cabinet ddechrau Mawrth 2020 wedi bod yn rai anodd. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein dulliau o weithio ac ar ein hamserlenni. Dwi'n falch felly o allu adrodd ein bod wedi gallu symud ymlaen yn ystod y flwyddyn. Er nad ydym wedi gallu cyflawni popeth yr oeddem ni wedi ei obeithio, mae llawer o waith paratoi wedi digwydd ac rydym ar y trywydd iawn i gwblhau popeth o fewn oes y Cynllun.

Yn ystod y flwyddyn roedd hi'n bleser i gyflwyno'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad newydd i'r Cabinet a'u bod hwythau wedi ei gymeradwyo. Mae'r penderfyniad i weithio gyda "Inclusive Employers" i wella ein polisïau cyflogaeth yn un cyffrous. Da hefyd yw cael gwybod am yr holl waith sydd wedi ei wneud gan Wasanaethau'r Cyngor i sicrhau tegwch a chael gwared ar rwystrau y tu allan i Gynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb, ac mae esiamplau o'r gwaith yna i'w weld ar ddiwedd yr Adroddiad yma

Un peth pwysig arall i'w nodi ym maes cydraddoldeb ydi'r ffoaduriaid oedd wedi dechrau dod o'r Wcráin erbyn Mawrth 2021. Rydym yn eu croesawu'n fawr yma i Wynedd, fel y ffoaduriaid eraill rydym yn eu cefnogi. Rydym yn ceisio rhoi cymaint o gymorth iddynt ag y gallwn, tra wrth gwrs yn gresynu at y rheswm mae nhw wedi gorfod dod yma.

Dwi'n falch rŵan o allu trosglwyddo'r awenau i fy nghyd-Aelod Cabinet, y Cynghorydd Menna Jones, gan wybod fod y maes mewn dwylo diogel.



Y Cynghorydd Nia Jeffreys,
Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol
Cyngor Gwynedd.

# Rhagair



Diolch yn fawr Nia, dwi'n falch iawn i gymryd y cyfrifoldeb am gydraddoldeb ar ran y Cabinet. Dwi'n gwerthfawrogi pa mor bwysig ydi hi i sicrhau fod gwasanaethau'r Cyngor yn addas i bawb.

Dwi'n edrych ymlaen hefyd at weld y prosiectau sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb yn dwyn ffrwyth dros y ddwy flynedd nesaf.  Bydd cael amrediad o gyrsiau ym maes cydraddoldeb yn ddefnyddiol i'n staff, a dwi'n edrych ymlaen yn fawr i weld pa welliannau y gallwn ei wneud yn ein trefniadau cyflogi.  Mae'r datblygiadau ym meysydd asesu effaith ac ymgysylltu gyda phobl Gwynedd yn gyffrous iawn hefyd.

Y Cynghorydd Menna Jones,
Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24' (y Cynllun) er mwyn parhau gyda'r gwaith o Sicrhau Tegwch i Bawb sydd yn un o flaenoriaeth gwella'r Cyngor. Mae hyn yn bodloni dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i leihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau penodol drwy ofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Cynllun yn edrych ar degwch o ran 9 o nodweddion gwarchodedig sef:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhywedd
- Hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Mae'r Cynllun gosod ac yn disgrifio'r gwaith fyddai o flaenoriaeth i'r Cyngor yn y maes yma am y bedair blynedd dan sylw, ac rydym wedi rhannu'r gwaith i bum amcan sef:

- **Amcan 1:** Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir.

- **Amcan 2:** Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

- **Amcan 3:** Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

- **Amcan 4:** Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.

- **Amcan 5:** Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Mae'r ddwy flynedd ers i'r Cynllun ddod yn weithredol wedi bod yn rai anodd iawn i bawb. Mae'r argyfwng achoswyd gan Covid-19 wedi amlygu nifer o anghydraddoldebau ac mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ein gwasanaethau yn sgil hyn i sicrhau ein bod yn deg. Mae

cyfnod clo wedi achosi i ni weithredu yn wahanol, e.e. gan ddefnyddio mwy ar dechnoleg gwybodaeth, sydd wedi achosi problemau mewn rhai ffyrdd ond hefyd wedi bod o gyfle i symud dulliau o weithio yn eu blaenau.  Mae hyn wedi effeithio ar rai amserlenni oherwydd yr angen i ganfod ffyrdd gwahanol o wneud pethau a  blaenoriaethau eraill.

Rydym hefyd wedi edrych ar 5 amcan y Cynllun, yn yr un modd a'r llynedd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas wrth i bethau ddechrau gwella a sefydlogi.  Ein casgliad yw eu bod yn addas. Nid ydym wedi adnabod unrhyw angen i ychwanegu at yr amcanion ar hyn o bryd a'n blaenoriaeth fydd cwblhau'r gwaith sydd wedi ei adnabod o fewn cyfnod y Cynllun.

Mae'r adroddiad yma yn amlinellu, fesul amcan, beth yw'r pwyntiau gweithredu rydym wedi ymrwymo iddynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, beth oedden ni'n gobeithio'i gyflawni yn ystod 2021/22 a beth y gwnaethom lwyddo i'w wneud mewn gwirionedd. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar y math o wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb ac yn dangos sut mae cydraddoldeb wedi gwreiddio o fewn gwaith dydd i ddydd y Cyngor, gan ymateb i'r dyletswyddau a osodir arnom fel Awdurdod Lleol.



# Amcan 1:

Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir.

Fel ag y nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb nid yw'r Cyngor yn credu fod pob aelod o staff yn llawn deall yr angen i flaenoriaethu ystyriaethau cydraddoldeb neu'n ansicr sut i wneud hynny'n iawn. Rydym wedi adnabod yr angen i ail-edrych ar ein deunyddiau hyfforddiant er mwyn eu gwneud yn fwy pwrpasol a mwy cyfleus. Rydym hefyd wedi adnabod yr angen i blethu egwyddorion cydraddoldeb i hyfforddiant perthnasol arall, er mwyn gwreiddio cydraddoldeb yn ddyfnach o fewn gwaith y Cyngor.

Ein bwriad wrth wneud hyn ydi i sicrhau fod gan y gweithlu, beth bynnag eu swyddi, ddealltwriaeth drylwyr o'r maes a'u bod yn hyderus i weithredu ar eu dyletswydd tuag at unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd yr Aelodau Etholedig hefyd yn deall ac yn fwy hyderus yn eu dyletswydd i herio a gwneud penderfyniadau.

## Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn creu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb fel maes craidd fydd yn amrywiol, blaengar, penodol ac o'r ansawdd uchaf. Bydd wedi ei deilwra'n briodol ar gyfer pob aelod o staff ar bob lefel, ynghyd ag Aelodau Etholedig, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u dyletswydd tuag at gydraddoldeb.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

- ystyried effeithiolrwydd ein hyfforddiant presennol a darganfod beth fyddai'n helpu staff i ddeall mwy am y maes
- cydweithio gyda Rheolwyr y Cyngor er mwyn darganfod pa ddulliau cyflwyno fyddai fwyaf addas ar gyfer anghenion staff amrywiol, e.e. staff rheng flaen, rheolwyr
- comisiynu darparwyr hyfforddiant gyda phrofiad bywyd o'r maes i ddarparu hyfforddiant arbenigol wyneb yn wyneb i'n staff yn ôl yr angen.

### Beth wnaethom ni?

Erbyn hyn mae hyfforddiant drwy'r Amgylchedd Dysgu o Bell (ADoB) wedi ennill ei blwy ac rydym wedi dechrau ei ddefnyddio yn y maes cydraddoldeb. Rhoddwyd hyfforddiant ar-lein i rai gwasanaethau ac mae'r hyfforddiant yma ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill.

Rydym wedi adnabod fod hi'n anodd dod o hyd i hyfforddiant sydd wedi ei wneud yn barod yn y Gymraeg ac mae hyn wedi ein gorfodi i ystyried dulliau amgen ac felly wedi methu cael hyd i e-fodiwl i'w ddefnyddio. Ein penderfyniad felly oedd addasu'r un sydd gennym yn barod, wrth ddisgwyl i weld os fydd gan Lywodraeth Cymru â syniadau yn sgil y cynlluniau gweithredu hil, LHDT+ ac anabledd y maent yn y broses o'u creu. Mae'r e-fodiwl yma bron yn barod i'w gyhoeddi ac mi fydd yn un o'r e-fodiwlau craidd fydd yn fandadol i'r gweithlu cyfan ei gwblhau., Ein bwriad yw sicrhau fod pawb yn cael gwybodaeth sylfaenol yn y maes.

Rydym wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r prosiect 'dysgu digidol' cenedlaethol sy'n creu adnoddau dysgu Cydraddoldeb, gyda'r gobaith y bydd hyn yn ychwanegiad gwerthfawr at y 'pecyn' o adnoddau sydd gennym.

Ein blaenoriaethau pellach ar gyfer 2022/23 fydd cwblhau ein Fframwaith Hyfforddiant

Cydraddoldeb, gan greu hyfforddiant i Aelodau a rheolwyr ar asesiadau effaith a dyletswyddau'r Cynllun Cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn plethu elfennau cydraddoldeb i amrediad o deitlau hyfforddi newydd sy'n cefnogi rheolwyr i arwain timau ac yn canfod ffyrdd gwell o hybu'r defnydd o'r hyfforddiant sydd ddim yn fandadol gan ddefnyddio'r wybodaeth rydym ni wedi ei gasglu o'r arolwg diweddar.

## Pwynt Gweithredu 2:

Mae gan Aelodau Etholedig fynediad i Borth Aelodau, sef mewnrwyd electroneg, sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a digwyddiadau sy'n berthnasol iddynt. Dros gyfnod y Cynllun byddwn yn diweddaru'r Porth gyda chanllawiau hyfforddi a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch hyrwyddo gan ddefnyddio e-newyddlen yr Aelodau, "Rhaeadr", i wella dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael ar y Porth.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Byddwn yn diweddaru'r Porth Aelodau gan roi gwybodaeth am gydraddoldeb arno, gan gynnwys dyletswyddau'r Cyngor a'r Aelodau ym maes cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd .

### Beth wnaethom ni?

Mae'r Fewnrwyd Aelodau wedi ei greu ar ei newydd wedd ac mae'n cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd gymdeithasol newydd a'r hyfforddiant cydraddoldeb. Bydd yn cael ei hyrwyddo ymhellach i Aelodau'r Cyngor newydd o fis Mai ymlaen er mwyn esbonio eu cyfrifoldeb dros gydraddoldeb. Oni bai am y gwaith hyrwyddo, sy'n fater parhaus, mae'r pwynt gweithredu yma felly wedi ei gwblhau.

## Pwynt Gweithredu 3:

"Ffordd Gwynedd" yw'r "ffordd" y byddwn yng Nghyngor Gwynedd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Bwriedir creu sefyllfa lle bydd profiadau unigolion wrth iddynt ddod i gyswllt â'r Cyngor yn rai positif ac yn cwrdd â'u hanghenion. Byddwn yn parhau i weithio ar gryfhau'r elfen cydraddoldeb fel rhan o hyfforddiant "Ffordd Gwynedd". Felly hefyd y drefn Croesawu i'r Cyngor ar gyfer aelodau o staff newydd.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cwblhawyd y gwaith a nodwyd uchod yn 2020/21 ac felly nid oedd gwaith ar gyfer 2021/22.

### Beth wnaethom ni?

Parhau i weithredu yn unol â'r newidiadau i'r hyfforddiant. Os fydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar yr hyfforddiant Ffordd Gwynedd a Croesawu i'r Cyngor bydd cydraddoldeb yn parhau i fod yn rhan greiddiol ohonynt ac yn cael ei gryfhau os yn bosib.

# Amcan 2:

Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

Mae rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud yn gonglfaen i'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithio, ac mae hynny wrth gwrs yn cynnwys pobl gyda nodweddion gwarchodedig gwahanol. Nid yw'n bosib gwneud hynny heb dderbyn a gweithredu ar farn arbenigol y bobl dan sylw. Er bod gwybodaeth wedi ei gasglu am bobl Gwynedd rydym wedi adnabod nad ydym fel Cyngor yn gwneud digon i sicrhau fod llais pobl gyda nodweddion gwarchodedig yn cael ei gynnwys yn naturiol o ddydd i ddydd wrth wneud penderfyniadau.

Ein bwriad wrth wneud hyn yw cael gwell dealltwriaeth o'r anghenion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n derbyn ein gwasanaethau oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, a gallwn ddefnyddio hynny i wella ein gweithdrefnau. Gallwn ddefnyddio ein grwpiau rhwydweithio presennol er mwyn manteisio ar gyfarfodydd a digwyddiadau sydd eisoes wedi eu rhaglennu.

## Pwynt Gweithredu 1:

Er mwyn deall unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig wrth iddynt ymwneud â'r Cyngor, byddwn yn cynnal arolwg cyhoeddus trylwyr. Bydd yr arolwg yn adnabod beth yw'r rhwystrau hynny a'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn ymateb. Bydd y gwaith yma'n cynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau er mwyn cyrraedd croestoriad o bobl, yn enwedig y rhai sydd ddim fel arfer yn cymryd rhan. Byddwn yn sicrhau cyfrinachedd y rhai sy'n cymryd rhan.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cwblhau'r arolwg dan sylw a symud ymlaen i ran 2 y gwaith, sef gweithredu gyda grwpiau oedd heb gymryd rhan yn yr arolwg hyd yma.

### Beth wnaethom ni?

Er bod argyfwng Covid-19 wedi golygu y bu'n rhaid addasu ein ffordd o weithio, a bod yr amserlen hefyd wedi newid yn sylweddol, llwyddwyd i gwblhau arolwg ar-lein erbyn 30 Ebrill 2021. Nod yr ymarferiad oedd canfod os oedd pobl Gwynedd yn wynebu rhwystrau neu annhegwch wrth ymwneud â'r Cyngor. Rydym wedi cwblhau'r dadansoddiad ac wedi dechrau gweithredu ar y prif negeseuon yn fewnol ond nid yw'r canfyddiadau wedi eu rhannu gyda'r Aelod eto. Roedd yr ymatebion yn dangos fod mwyafrif sylweddol o ddefnyddwyr y Cyngor yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg wrth dderbyn gwasanaethau. Ar y llaw arall roedd yr ymatebwyr wedi rhoi llawer o sylwadau gwerthfawr i'n help i wella ein gwasanaethau.

Roedd yr arolwg yma, ynghyd a'r un staff, hefyd yn rhoi gwybod i ni am ffyrdd o wella ein trefniadau cyflogaeth (gweler Amcanion 4 a 5).

Byddwn yn awr yn symud ymlaen i gwblhau'r gwaith sydd ei angen ar y dadansoddiad, a'r gwaith sy'n deillio o'r ymatebion. Rydym yn awr o'r farn y dylai'r gwaith yma fod yn rhan barhaus o'r rhaglen waith yn symud ymlaen.

# Pwynt Gweithredu 2:

Byddwn yn gweithio i ddatblygu mwy o gyswllt gyda grwpiau neu unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig drwy barhau i weithio efo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'i ehangu. Rhaid gwneud cyswllt gyda grwpiau ychwanegol o bobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol er mwyn parhau i dderbyn barn amrywiol. Cymerwn hefyd gamau pellach i sicrhau fod ein Panel Trigolion yn cynnwys amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig, drwy dargedu yn ôl yr angen.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae hwn yn waith parhaol felly nid oedd unrhyw waith penodol wedi ei nodi ar gyfer y cyfnod yma.

### Beth wnaethom ni?

Mae'r gwaith o gyfathrebu gyda mudiadau wedi parhau yn ystod 2021-22. Mae nifer o grwpiau wedi dangos diddordeb mewn ymuno ac wedi eu rhoi ar y rhestr bostio. Yn anffodus siomedig fu'r niferoedd oedd yn mynychu'r cyfarfodydd. Byddwn yn gweithio yn 2022-23 i wella hyn ac i chwilio am ffyrdd amgen i gynnal y cyfarfod fydd yn denu mwy o fynychwyr.

# Pwynt Gweithredu 3:

Drwy weithio gyda rheolwyr a phenaethiaid byddwn yn sicrhau fod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor yn deall anghenion pobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella ein gwasanaethau a chreu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Bydd angen adolygu ein Polisi Mynediad/Cydraddoldeb gan ystyried hefyd argymhellion gweithredol y Grŵp Craidd Cydraddoldeb.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Roedd y pwynt gweithredu yma'n waith parhaol ond roeddem wedi gosod y nod o adolygu'r Polisi Mynediad/Cydraddoldeb erbyn Ionawr 2022.

### Beth wnaethom ni?

Penderfynwyd uno'r Polisi Mynediad a'r Polisi Cydraddoldeb mewn un ddogfen a chymeradwywyd y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad hwnnw gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021. Mae felly'n weithredol ac yn rhoi arweiniad i aelodau staff ar ffyrdd o weithredu i sicrhau eu bod yn cael gwared ar rwystrau.

Mae'r gwaith o hyrwyddo negeseuon cydraddoldeb ymysg staff yn mynd yn ei flaen.

# Amcan 3:

Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

Er bod nifer ac ansawdd ein hasesiadau wedi gwella yn ystod cyfnod Cynllun Cydraddoldeb 2016-20 mae lle i wella ymhellach. O gyflawni'r asesiadau i'w llawn botensial gallwn sicrhau ein bod yn rhoi pob un o bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud drwy roi sylw dyledus i faterion cydraddoldeb. Ein bwriad yw sicrhau fod penderfyniadau wedi eu gwneud ar sail gadarn ar bob lefel yn y Cyngor gan fod staff ac Aelodau Etholedig yn llawn deall eu dyletswyddau ac yn gallu gweithredu arnynt.

## Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn creu hyfforddiant ychwanegol penodol ar gyfer staff perthnasol ac Aelodau Etholedig. Bydd yn canolbwyntio ar fanteision Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac yn darparu arweiniad a chyngor ar eu cynnal er mwyn ystyried yn drylwyr unrhyw effeithiau posib ar bobl Gwynedd. Bydd cynnwys yr hyfforddiant yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Creu hyfforddiant penodol ar asesu effaith polisi neu weithdrefn newydd / wedi'i haddasu ar gyfer Aelodau.

### Beth wnaethom ni?

Penderfynodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru greu templed rhanbarthol. Bwriad hyn oedd creu templed safonol a fyddai'n haws i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith partneriaethol a chynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd yn ogystal â chwestiynau i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi addasu'r templed ar gyfer ei ddefnyddio yng Ngwynedd ac mae'n cael ei osod ar ap electroneg i hwyluso ei ddefnyddio a bydd yn weithredol erbyn yr haf. Unwaith fydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau byddwn yn gallu cynnig hyfforddiant arno.

Bu rhywfaint o lithriad yn y gwaith oherwydd bod yr arbenigedd technegol wedi ei ddargyfeirio i weithio ar y prosiect ffoaduriaid Wcráin. Yn y cyfamser mae templed interim yn cynnwys y cwestiynau angenrheidiol ar gael.

## Pwynt Gweithredu 2:

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn cryfhau trefniadau drwy sicrhau fod Aelodau Etholedig yn gynyddol hyderus i herio ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel rhan naturiol o'u gwaith wrth dderbyn adroddiadau/gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd Cabinet, Pwyllgorau Craffu a chyfarfodydd Herio Perfformiad. Bydd yr hyfforddiant uchod yn allweddol i sicrhau llwyddiant y drefn hon a byddwn yn darparu canllawiau ar gyfer y cyfarfodydd gwahanol.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cwblhau'r canllawiau ar gyfer Aelodau sy'n aelodau o wahanol gyfarfodydd. Mae gweddill y gwaith yn cael ei nodi fel gwaith parhaol fel arall felly nid oes amserlen bendant.

### Beth wnaethom ni?

Nid yw wedi bod yn bosib cwblhau'r gwaith ar yr asesiad effaith cydraddoldeb (gweler uchod) ac felly nid yw'r canllawiau ar gyfer aelodau wedi eu cwblhau. Wedi dweud hynny mae gwybodaeth am gydraddoldeb, gan gynnwys asesiadau effaith, wedi ei roi ar y fewnrwyd newydd i aelodau ac mae arweiniad ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi ei roi i weithdai craffu yn ystod 2021/22.

Bydd etholiadau ar gyfer y Cyngor yn digwydd ym mis Mai a bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i Aelodau Etholedig yn fuan wedi hynny.

## Pwynt Gweithredu 3:

Byddwn yn parhau i gydweithio ag Adrannau'r Cyngor i sicrhau y caiff sylw dyledus ei roi i anghenion cydraddoldeb mewn unrhyw gyfundrefn i adnabod arbedion neu doriadau. Sicrheir y bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb amserol ac o ansawdd yn cael eu cynnal i gyfrannu at y broses o adnabod unrhyw gynlluniau er mwyn adnabod unrhyw oblygiadau negyddol fyddai penderfyniad am doriad mewn cyllideb yn ei gael ar grwpiau lleiafrifol penodol yng Ngwynedd, a'u lleihau lle'n bosib.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae'r gwaith yma'n barhaol ac yn digwydd yn ôl yr angen.

### Beth wnaethom ni?

Gan nad oedd angen adnabod arbedion neu doriadau o'r newydd yn y cyfnod dan sylw nid oedd angen gweithredu ar y pwynt penodol yma. Fodd bynnag, mae staff ac adrannau'r Cyngor wedi derbyn cymorth a chefnogaeth barhaol gydag asesiadau effaith mewn meysydd eraill.

# Amcan 4:

Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.

Er bod y ddau awdit diweddaraf wedi dangos fod y cyngor yn rhoi tâl cyfartal i ferched a dynion fel ei gilydd, mae'r bwlch tâl ar gyfartaledd yn parhau, fel ymhob awdurdod lleol arall. Mae hyn, ar y cyfan, oherwydd bod merched yn llai tebygol o ymgeisio ac felly o gael cynnig swyddi ar raddfeydd cyflog uwch o fewn y Cyngor. Rydym eisoes wedi adnabod hyn fel mater o flaenoriaeth sydd angen sylw, a dyna pam fod y prosiect 'Merched mewn Arweinyddiaeth' wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

Er bod tystiolaeth genedlaethol yn dangos fod bylchau cyflog eraill yn bodoli, megis y gwahaniaeth rhwng pobl anabl a gweddill unrhyw weithlu, mae'n profi'n anodd casglu digon o wybodaeth o fewn y Cyngor er mwyn cynnal asesiadau ehangach. Rydym yn ddibynnol ar aelodau staff i wirfoddoli'r wybodaeth. Fel ymhob sefydliad cyhoeddus arall, mae'r niferoedd sy'n gwneud hynny'n isel.

Ein bwriad wrth weithredu'r amcan yma yw cael mwy o ferched yn ymgeisio am swyddi arweiniol, monitro a lleihau'r bwlch tâl yn ôl rhyw ac adnabod bylchau eraill gan gychwyn ar y gwaith i'w lliniaru.

## Pwynt Gweithredu 1:

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar annog mwy o staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb dewisol er mwyn cynyddu faint o wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu gwaelodlin, adnabod bylchau yn ein gweithlu a chynnal archwiliadau ar sail nodweddion gwarchodedig eraill. Byddwn yn gwneud hyn drwy amrywiol ddulliau yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys cynnal ymgyrch hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth yr aelodau staff sy'n newydd i'r system hunanwasanaeth.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae hyn yn waith fydd angen sylw parhaol am beth amser ac felly nid oedd gwaith penodol wedi ei nodi am y flwyddyn yma.

### Beth wnaethom ni?

Fel nodwyd llynedd mae'r niferoedd sydd wedi rhoi'r wybodaeth yma'n isel, ac mae'r sefyllfa yma'n wir ym mudiadau sector gyhoeddus eraill. Yn sgil gweithredu, a gyda chymorth Penaethiaid Adrannau, mae'r niferoedd yn codi'n araf ond mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau fod mwy o wybodaeth yn cael ei rannu. Rydym wedi adnabod y mannau sydd angen mwyaf o waith a byddwn yn parhau i weithredu i wella'r sefyllfa. Dim ond wedyn fydd gennym ni wybodaeth ddigonol er mwyn adnabod unrhyw broblemau.

Yn ystod y flwyddyn edrychwyd ar berfformiad pob Adran a chydweithiwyd gyda Phenaethiaid i annog staff i lenwi'r holiadur neu ei ddiweddaru. Byddwn yn teilwra gweithgareddau pellach i gyd-fynd â sefyllfaoedd adrannau / gweithluoedd unigol.

# Pwynt Gweithredu 2:

Byddwn yn parhau i gynnal archwiliad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched, a thrwy gasglu'r data yn unol â Phwynt Gweithredu 1, yn gweithio i ddatblygu'n gallu i gynnal archwiliad o'r fath mewn perthynas â nodweddion eraill sydd wedi'u gwarchod. Yn ogystal, byddwn yn cynnal awdit tâl bob tair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dalu cyflog cyfartal am y math o waith sy'n cael ei gyflawni. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at gael cynlluniau mewn lle i leihau unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr awdit.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cynnal awdit ar y gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched (gender pay gap) a chynnal awdit tâl ar sail rhyw (equal pay audit)

### Beth wnaethom ni?

Mae'r ymgynghorydd annibynnol wedi gwneud gwaith sylweddol ar yr awdit  tâl ac erbyn Mawrth 2022 roeddem wedi derbyn drafft cyntaf o'r adroddiad.  Mae'r gwaith o ddadansoddi'r data ymhellach yn parhau, gyda'r bwriad o dderbyn yr adroddiad terfynol yn ystod yr haf. Byddwn yn ystyried cynnwys yr adroddiad wedi i ni ei dderbyn ac yn gweithredu yn unol â'r canfyddiadau os oes angen.

# Pwynt Gweithredu 3:

Mae gwaith hefyd wedi bod yn digwydd fel rhan o brosiect Merched mewn Arweinyddiaeth (sy'n un o flaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor 2018-23).  Rydym wedi adnabod bod y nifer o ferched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur o isel o ystyried mai merched sy'n ffurfio 70% o'r gweithlu cyfan. Prif amcan y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi arweiniol o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith i ddenu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

- Adolygu amodau a'r amgylchedd gwaith i sicrhau ein bod yn flaengar yn annog Merched Mewn Arweinyddiaeth ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all  atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.
- Gweithredu rhaglen waith sy'n cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, cynnal a datblygu'r fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor a threfnu a chynnal digwyddiad i ddynion y Sefydliad.

### Beth wnaethom ni?

- Fel rhan o'n harfer fel Sefydliad i farcio Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar Fawrth yr 8fed, lansiwyd y gyfres gyntaf o Raglen Ddatblygol Merched Mewn Arweinyddiaeth eleni. Cafwyd dros 30 o geisiadau ar gyfer y Rhaglen gydag 11 merch o drawstoriad o adrannau a rolau o fewn y Cyngor yn derbyn lle.  Mae'r adborth cyn belled yn datgan bod y rhaglen wedi bod yn ddefnyddiol iawn iddynt a'u bod yn elwa o'r profiad. Mae rhai hyd yn oed wedi eu dyrchafu i swyddi uwch yn ystod cyfnod y rhaglen.

- Yn ogystal ag arbenigwyr mewnol rydym hefyd wedi croesawu siaradwyr allanol i fod yn cyfrannu i'r Rhaglen; Alys Carlton -  sy'n rhedeg cwmni Cymhelliant Gweithredol, Dr Hanna Hopwood, Cyflwynwraig, a Marian Evans, dynes busnes o fri wedi ei henwi fel Inspirational Woman of the Decade.

- Mae awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi yn cael ei arwain gan y Tîm Adnoddau Dynol gydag ymgynghoriad llawn wedi bod efo aelodau'r Grŵp Merched mewn Arweinyddiaeth cyn diwygio amodau gwaith unigol. Bydd y drefn hon yn parhau i'r flwyddyn nesaf.

- Mae'r cyfarfodydd poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" ar gyfer Aelodau Etholedig benywaidd yn ogystal â staff wedi parhau gyda siaradwyr allanol wedi'u gwahodd i gyfrannu yn ogystal â rhai o'n harweinwyr benywaidd mewnol presennol.

- Mae tudalen mewnrwyd newydd yn cofnodi a hyrwyddo gweithgarwch y prosiect wedi ei dylunio a'i chyhoeddi yn ystod y flwyddyn.

- Cynhaliwyd digwyddiad i ddynion y sefydliad ar yr 28ain o fis Mehefin.

# Amcan 5:

Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Mae'r Cyngor yn un o brif gyflogwyr y sir. Mae'n bwysig felly ein bod yn gweithio tuag at sicrhau fod ein gweithlu'n adlewyrchu poblogaeth oed gweithiol Gwynedd cymaint â phosib. Mae'r Cabinet wedi nodi hyn fel un o'u prif flaenoriaethau. Mae cael gwybodaeth ddigonol am nodweddion gwarchodedig ein gweithlu (Gweler Amcan 4) yn greiddiol wrth wneud gwaith yma. Dylid nodi nad oes gennym unrhyw fwriad i wneud y gwaith mewn ffordd artiffisial. Yn hytrach byddwn yn mynd ati i amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl o wahanol gefndiroedd, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu denu'r dewis mwyaf posib o ymgeiswyr. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn canfod y person gorau ar gyfer pob swydd er mwyn ein galluogi i gynnig y gwasanaeth gorau a chyson ar draws y sir ac ateb anghenion y boblogaeth.

Ein bwriad wrth wneud hynny yw sicrhau gwell amrywiaeth ymysg yr ymgeiswyr am swyddi fydd yn arwain at weithlu sy'n adlewyrchu ein poblogaeth.

## Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu o'r holiadur cydraddoldeb (gweler Amcan 4, Pwynt Gweithredu 1), ac yn cynnal ymchwil ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a'n staff, er mwyn canfod unrhyw ffactorau sy'n rhwystro carfannau penodol o bobl â nodweddion gwarchodedig rhag ymgeisio am swyddi. Byddwn hefyd yn gweithio er mwyn darganfod ffyrdd o'u hannog i ymgeisio e.e. drwy hysbysebu swyddi'n ehangach nag ar wefan y Cyngor yn unig er mwyn denu ystod ehangach o geisiadau.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae'r gwaith yma'n barhaol ond erbyn 2021/22 roeddem yn anelu i gwblhau'r arolwg cyhoeddus er mwyn adnabod beth yw'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd â gwahanol nodweddion (yn unol ag Amcan 2, Pwynt Gweithredu 1).

### Beth wnaethom ni?

Mae'r ymgynghoriad gyda'r gweithlu a'r cyhoedd wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. Nid ydym eto wedi cael y siawns i weithredu'n llawn ar y canfyddiadau. Bydd hynny yn cael ei wneud wrth i ni weithio gyda Inclusive Employers (gweler pwynt 3 isod) i wella ein polisïau a ffyrdd o weithio er mwyn rhoi sylw priodol i nodweddion cydraddoldeb.

Er mwyn casglu mwy o wybodaeth rydym wedi penderfynu holi'r rhai sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor os ydynt wedi profi unrhyw rwystrau. Mae'r drefn yma yn rhoi'r siawns i ni gasglu'r wybodaeth yn barhaus a bydd yn arwain at well data ynghylch tueddiadau cyflogi. Yn gynharach yn y flwyddyn cynhaliwyd peilot yn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Mae hi'n ddyddiau cynnar ar y gwaith hwnnw ond y gobaith yw y bydd yn ein helpu i ddeall yn well os oes yna rwystrau mae pobl yn ei wynebu wrth weithio â'r Cyngor. Byddwn yn symud ymlaen i sefydlu trefniadau tebyg yn ehangach ar draws y Cyngor yn ystod 2022/23

## Pwynt Gweithredu 2:

Gweithio ar y cyd gyda chyrff cyhoeddus eraill o fewn ein rhanbarth megis Heddlu Gogledd Cymru neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cyfarch unrhyw rwystrau a amlygir. Gallai hyn ddarparu mynediad at amrywiaeth ehangach o bobl hefyd, o gofio nad yw proffil cydraddoldeb bob gweithlu'n debygol o fod yr un fath.

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae'r gwaith yma'n barhaol felly nid oedd gwaith penodol wedi ei glustnodi ar gyfer y flwyddyn yma.

### Beth wnaethom ni?

Mae'r problemau a achoswyd gan Covid-19, ynghyd â phroblemau staffio, wedi parhau i oedi'r gwaith yma. Ond mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi penderfynu fod gwneud gwaith ar amrywiaeth o fewn cyflogaeth yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen ac wedi ail-sefydlu is-grŵp. Bydd yr is-grŵp yn ystyried hefyd os oes angen addasu'r ffordd fydd y gwaith yma ddigwydd erbyn hyn. Mae'r maes cynllunio'r gweithlu yn faes sydd yn derbyn sylw ehangach o fewn y Cyngor a bydd gwella recriwtio yn datblygu i fod yn rhan bwysig o'r prosiect.

## Pwynt Gweithredu 3:

Blaenoriaethu gweithio tuag at gyrraedd Lefel 2 y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' er mwyn bod yn 'Gyflogwr Hyderus' ac edrych ar ddod yn Bencampwr Stonewall

### Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Nid oedd unrhyw waith penodol wedi ei nodi ar gyfer y flwyddyn yma.

### Beth wnaethom ni?

Mae'r gwaith o gyrraedd Lefel 2 yn parhau; rydym eisoes wedi adnabod yr hyn fydd angen ei gyflawni er mwyn cyrraedd Lefel 2 y cynllun, gyda'r camau yn cwmpasu'r themâu canlynol:

- Ceisio dylanwadu ar sefydliadau eraill i fod yn hyderus o ran anabledd
- Sicrhau fod gan staff y mynediad at hyfforddiant pwrpasol yn y maes
- Parhau i gymryd camau i gael gwared ar rwystrau allai fod yn atal datblygiad mewn swydd ar gyfer staff anabl
- Datblygu ymhellach y cyfleoedd sydd yna i staff anabl allu rhoi adborth, trwy annog sgyrsiau rhwng rheolwyr a staff ond hefyd trwy ddatblygu rhwydweithiau penodol.
- Datblygu ymhellach sut rydym yn recriwtio a phenodi staff anabl.

Rydym yn parhau i ddal achrediad Lefel 1 y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, ac yn gwbl ymrwymedig i gyrraedd Lefel 2 cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

Wrth ymchwilio i'r posibilrwydd o fod yn Bencampwr Stonewall, penderfynwyd y dylid dilyn trywydd ychydig yn wahanol ac ehangach er mwyn ceisio gwireddu'r amcan hwn. Ein bwriad yw ymgeisio am achrediad yr Inclusive Employers, a fydd yn ein galluogi i dderbyn adborth ar ein gwaith fel cyflogwr yn y maes cydraddoldeb, ac yn y pen draw i'n cynorthwyo i wella yn y maes. Trwy ddilyn y llwybr hwn byddwn yn derbyn cyngor ac adborth arbenigol a fydd yn bwydo i mewn i gynllun gwaith ar ein cyfer fel cyflogwr. Bydd y broses yn dechrau ddiwedd haf 2022.

# Gwybodaeth

Mae hi'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adrodd ar yr wybodaeth rydym yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb yn flynyddol.

## Monitro Manylion Cydraddoldeb Staff

Oherwydd bod llenwi'r ffurflen yn ddewisol (yn unol â'r canllawiau) nid oes digon o bobl wedi ei lenwi.  Rydym wedi adnabod hyn, ac yn gweithio i annog mwy o bobl i wneud hynny (Amcan 4, Pwynt Gweithredu 1).  Pan fydd gennym wybodaeth ddigonol byddwn yn gallu adnabod bylchau cyflog, yn fwy eang na ar sail rhyw yn unig (Amcan 4, Pwynt Gweithredu 2) a gweld os oes angen gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu (Amcan 5).  Roedd 48% o'r gweithlu wedi cwblhau'r holiadur y tro hyn i'w gymharu â 41.8% y flwyddyn ddiwethaf.  Mae'r wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu i'w weld yn Atodiad 1.

Bwriad hyn fydd adnabod a delio ag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, gan hybu cyfleoedd cyfartal a chreu perthynas well rhwng pobl hefo nodwedd warchodedig benodol a phobl sydd heb y nodweddion yna.

## Cwynion a phryderon

Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhoi cyngor ar unrhyw gwyn sy'n cael ei wneud ar sail camwahaniaethu.  Rydym hefyd yn edrych am batrymau'n flynyddol a gall hynny yn ein galluogi i adnabod a dysgu gwersi. Mae'n sicrhau ein bod yn gallu adnabod a delio ag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfleoedd cyfartal a hybu perthnasau da rhwng pobl sydd â nodwedd benodol a'r rhai sydd ddim.

Yn ystod 2021/22 derbyniwyd 5 cwyn ffurfiol yn erbyn gwasanaethau'r Cyngor a 2 am Fyw'n Iach.  Roedd 4 ar sail anabledd, 2 ar ran hil (sef cenedligrwydd) ac un ar sail rhyw. Nid oedd digon o gwynion i adnabod unrhyw batrwm ac mae ymateb wedi ei roi i'r achwynwyr i gyd. Yn ogystal mae nifer o sylwadau wedi eu derbyn am y penderfyniad i godi premiwm ar gartrefi gwyliau sydd hefyd yn honni hiliaeth yn erbyn pobl o Loegr, ar y sail cenedligrwydd.  Nid ydynt yn ymddangos yn y ffigyrau yma gan eu bod yn sôn am benderfyniad sydd wedi ei wneud gan y Cabinet ac felly nid ydynt yn ddilys i'w cyfrif.   Ond mae angen i ni adnabod y patrwm yma ac edrych os oes angen gweithredu i esbonio safbwynt y Cyngor yn well.

## Ymgysylltu

Er bod y Cyngor yn ymgysylltu'n aml gyda'r cyhoedd am bob math o bynciau roeddem wedi sylweddoli nad oedd gennym ddigon o wybodaeth benodol am yr union rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd wrth ymwneud â'r Cyngor.  Mae Amcan 2 yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â hyn.  Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i gwblhau asesiadau effaith ar ein gwasanaethau sydd wrth gwrs yn cynnwys 3 nod y ddyletswydd gyffredinol (sef cael gwared ar wahaniaeth, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfle cyfartal a hybu perthnasau da) .

## Data

Bu i Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, ar y cyd â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, greu dogfen ddata rhanbarthol yn 2019/20 ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2020-24. Roedd ar yr un llinellau ag A yw Cymru'n Decach? Llywodraeth Cymru. Mae'n dangos fod diffyg yn y data sydd ar gael mewn rhai meysydd craidd ar lefel sirol neu ranbarthol. Mae'n debygol fod hyn yn deillio yn rhannol o'r niferoedd isel. Ond mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n dangos sut fod y rhanbarth neu'r sir yn cymharu gyda Chymru yn ei gyfanrwydd mewn meysydd fel addysg, tai ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar gyfer creu asesiadau effaith sy'n bodloni tri nod y ddyletswydd. Mae'r diffyg gwybodaeth yma ar lefel sirol yn rhywbeth fyddwn ni'n edrych arno yn y Rhwydwaith wrth symud ymlaen, er nad oes gweithrediadau pendant eto.



# Gwaith dydd i ddydd

Oherwydd bod bob un ohonom yn berchen ar o leiaf 5 nodwedd warchodedig nid oes unrhyw ran o waith y Cyngor sydd ddim yn cyfrannu tuag at lesiant ar sail cydraddoldeb mewn rhyw ffordd. Mae'n bwysig fod pawb yn ymwybodol o hyn yn eu gwaith bob dydd. Mae dipyn o waith dydd i ddydd y Cyngor hefyd yn ymwneud yn benodol â diwallu anghenion pobl hefo nodweddion gwarchodedig ac yn ymateb i 3 nod y ddyletswydd gyffredinol. Mae gweithio gyda phartneriaid o bob math wedi bod yn greiddiol.

Mae llawer o'n gwaith hefyd yn ymwneud ag amddifadedd economaidd cymdeithasol ac felly'n diwallu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Isod mae esiamplau o'n gwaith o dan 3 nod y ddyletswydd benodol y sector cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol er wrth gwrs mae llawer o'r gwaith yn cwmpasu mwy nag un ddyletswydd:

## a. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf.

Mae gan y Cyngor nifer bolisïau cyflogaeth i wahardd aflonyddu ac erledigaeth e.e. polisi canu'r gloch a pholisi urddas yn y gwaith, ynghyd â rhai i atal gwahaniaethu yn y gweithle e.e. polisi menopôs a pholisi trawsryweddol. Mae gennym hefyd wrth gwrs weithdrefnau i sicrhau parch ac urddas tuag at ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad (gweler Amcan 2) hefyd yn rhoi amlinelliad o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau tegwch i bawb.

Mae'r asesiadau effaith sy'n cael eu gwneud ar newidiadau i bolisïau neu brosiectau yn ein helpu i adnabod gwahaniaethu anghyfreithlon posib a'u lliniaru. Rydym wedi bod yn gweithio ar ddull newydd o'u gwneud (gweler Amcan 3 uchod).

## b. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

Fel rhan o ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd gyrfa o ansawdd i bobl leol, penderfynodd y Cabinet ym mis Mai 2021 i fuddsoddi £1.1 miliwn mewn dau gynllun arloesol fydd yn rhoi cyfle i bobl y sir i ddechrau eu llwybr gyrfa yn eu cymunedau. Ymestynnwyd y Cynllun Prentisiaethau sy'n agored i unrhyw un 16 oed neu drosodd am dair blynedd, a rhoddwyd sêl bendith i gais i ariannu ymestyniad Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory sy'n cynnig cyfleoedd dechrau gyrfa ar gyfer graddedigion.




Cynhaliwyd 2 sialens ar gyfer plant a phob ifanc yn y Llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn. Yng Ngorffennaf Lansiwyd Sialens Darllen yr haf ym mhob llyfrgell yng Ngwynedd i annog plant rhwng 4 ac 11 i ymweld. Cynhaliwyd hefyd y sialens Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru i annog pobl ifanc i rannu llyfr sydd wedi bod o fudd i'w iechyd a lles. Mae'r ymgyrch hefyd yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau i ddosbarthiadau ysgolion megis gweithdai celf, cerddoriaeth a sesiwn stori, symud a chân. Yn ogystal derbyniwyd grant i ddarparu sesiynau chwarae ar gyfer plant bregus a phlant anabl. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau chwarae agored a chwarae sensori, gweithgareddau teulu gan DERWEN, sesiynau gofal a chwarae i blant bregus, a sesiynau chwarae mewn ardaloedd difreintiedig - cyfanswm o 80+ o sesiynau am ddim.

Ers dechrau mis Tachwedd 2021, mae Llyfrgelloedd Gwynedd, mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Addysg Cyngor Gwynedd, wedi cynnig nwyddau mislif am ddim i drigolion Gwynedd. Gall unrhyw un sydd angen nwyddau mislif helpu eu hunain o unrhyw Lyfrgell sydd â thoiled cyhoeddus. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell hefyd yn cynnig mynediad am ddim at amrywiaeth o nwyddau mislif y gellir eu hail-ddefnyddio, gyda modd i archebu trwy ffon, e-bost neu ar-lein, eu casglu o'u Llyfrgell neu eu cael wedi eu cludo i'r cartref. Mae'r cynllun Nwyddau Mislif am Ddim yn cynnig ffordd dda iawn i dreialu'r nwyddau hyn. Bwriad y Cynllun yw taclo tlodi mislif ac i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau amgylcheddol cynnyrch y gellir ei ail-ddefnyddio.

Mabwysiadodd Cyngor Gwynedd gynllun awtistiaeth ym mis Rhagfyr a fydd yn gyrru gwaith yn y maes allweddol yma am y blynyddoedd nesaf. Mae Cabinet y Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi'r cynllun a fydd yn sefydlu bwrdd awtistiaeth plant ac oedolion, rhaglen hyfforddi ar draws yr awdurdod, ynghyd a phenodi staff dynodedig i yrru'r gwaith yn ei flaen. Roedd y Cyngor yn awyddus iawn i ddysgu yn sgil cwyn a gyflwynwyd am wasanaethau yn y maes awtistiaeth. Felly comisiynwyd arbenigwr allanol i fwrw golwg manwl ar y gwasanaethau sydd ar gael gan nifer o asiantaethau sy'n gweithio yn y maes, trwy ymgynghoriad gyda phlant, teuluoedd a phobl awtistig a phartneriaid fel y Bwrdd Iechyd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cadw safon aur yn achrediad cenedlaethol y 'Safon Iechyd Corfforaethol'. Mae'n strwythur cenedlaethol a gynhelir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo a gwella iechyd a lles yn y gweithle. Mae'n cydnabod arferion da o ran iechyd a lles staff ac yn targedu materion allweddol ynghylch anhwylderau y gellir ei osgoi, i sicrhau fod staff yn y lle gorau i barhau i ddarparu gwasanaethau allweddol i bobl y sir. Mae'r Cyngor wedi dal y safon yn gyson ers 2011. Eleni roedd cydnabyddiaeth arbennig i'r ffordd mae'r Cyngor wedi addasu a chadw'r ddarpariaeth iechyd a lles i staff i fynd drwy gydol y pandemig, gwarchod staff bregus ei iechyd trwy roi camau llym mewn lle, a sicrhau fod cymorth yn parhau i fod ar gael er gwaetha'r amgylchiadau gwaith gwahanol.

Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon oedd yr ysgolion arbennig cyntaf yng Nghymru i sicrhau'r statws 'Lleoliad Cyfathrebu Gyfeillgar Elklan', sef ffordd arloesol o weithio i helpu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Roedd hyn yn dilyn dwy flynedd o waith caled gyda holl staff yr ysgolion yn derbyn hyfforddiant a chyflwyno'r rhaglen i ddisgyblion ar draws Caernarfon a Phenrhyndeudraeth. Mae cyfathrebu o bob math yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob unigolyn o fewn ysgolion yn cael eu clywed. Mae'r rhaglen yn cael ei defnyddio'n eang yn ysgolion Gwynedd i gefnogi disgyblion ag anghenion cyfathrebu ychwanegol. Mae'r gwaith mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad lleol.

Roedd gan Dementia Actif Gwynedd nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Un ohonynt oedd cystadleuaeth 'Mae Boccia yn ôl!' ar gyfer Ddiwrnod Cenedlaethol Boccia ym mis Hydref. Mae Boccia'n gêm darged gyda chwaraewyr yn gorfod taflu peli mor agos i'r targed ag sy'n bosib. Oherwydd Covid-19, nid oedd hi'n bosib dod a thimau at ei gilydd i gystadlu felly roeddynt yn cystadlu o'u lleoliad neu gartref preswyl unigol, gyda'r sgoriau gan y gwahanol dimau ar draws Gwynedd yn cael eu cymharu. Fe gymerodd 92 o chwaraewyr ran.





Mae staff o Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd wedi eu cydnabod yng Ngwobrau Trechu Trosedd Blynyddol Uchel Siryf Gwynedd ym mis Mawrth am eu gwaith caled a'u positifrwydd wrth gefnogi pobl ifanc 11-25 oed i gyflawni eu llawn botensial. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos iawn gyda'r Heddlu i drechu trosedd ac wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn arian gan gronfa PACT yr Heddlu. Maent yn cynnig darpariaeth mewn cymunedau ledled y sir gyda'r nos ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

### c. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

Gall helpu plant i aros yn eu cymuned leol fod o fudd mawr iddynt. Nid yn unig y mae'n eu cadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau, eu hysgol a'u hymdeimlad o hunaniaeth, ond mae hefyd yn meithrin hyder ac yn lleihau straen. Felly mae Cyngor Gwynedd yn rhan o ymgyrch hysbysebu ddwyieithog newydd, sy'n cynrychioli Cyngor Gwynedd a'r 21 o dimoedd maethu Awdurdodau Lleol dielw eraill sy'n ffurfio 'Maethu Cymru'. Ei bwrpas yw cynyddu nifer y rhieni maeth sydd ar gael i helpu plant yn eu hardal leol, pan fydd hynny'n iawn iddyn nhw.

Ym mis Rhagfyr, roedd Dementia Actif Gwynedd wedi cyfrannu tuag at wefan newydd ar gyfer a gan bobl gyda dementia a'u gofalwyr. Mae'r wefan Pecyn Byw Gyda Dementia, sydd wedi'i gynhyrchu gan Brifysgol Exeter ac Innovations in Dementia, yn llawn syniadau, awgrymiadau a ffilmiau i roi gobaith i bobl i fyw gyda dementia. Mae Dementia Actif Gwynedd wedi cyfrannu tuag at yr adran 'Aros yn Actif'. Gwnaeth y cydlynydd, Emma Quaeck, gyflwyniad ac yn cymryd rhan, gydag aelodau'r tîm Clare Harris a Lia Roberts, mewn ffilm sy'n siarad eu gwaith.

Lansiwyd sesiynau newydd yn Sarn Mellteyrn a Blaenau Ffestiniog er mwyn dod â phobl hŷn at ei gilydd yn y gymuned i wella iechyd a lles. Mae'r sesiynau, sy'n cynnwys ymarfer corff ysgafn a chymdeithasu dros baned yn croesawu pobl o bob gallu ac maent yn gynhwysol i bobl sydd wedi'u heffeithio â dementia a chyflyrau iechyd eraill. Y bwriad yw gwella cryfder, cydbwysedd a stamina, a bydd yr hyfforddwr yn teilwra'r ymarferion i weddu sefyllfa unigolyn.



Mae Clwb Atgofion Chwaraeon Nefyn yn dod â dilynwyr chwaraeon at ei gilydd i siarad a hel atgofion am bob math o chwaraeon. Mae'n cynnwys trafodaethau ar bynciau chwaraeon penodol; cwisiau, cystadlaethau 'Spot the Ball' ac ambell gêm Boccia neu Cyrlio Oes Newydd.

Mae Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ymuno gyda chymdeithas dai ClwydAlyn ar brosiect gofal cymdeithasol newydd i gefnogi pobl i ddychwelyd i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Mae Cynllun Penyberth yn defnyddio cartrefi yn hen bentref Pwylaidd Penrhos ym Mhen Llŷn i alluogi pobl i adael yr ysbyty er efallai nad ydi



nhw eto'n barod i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Gall yr uned ddarparu gwasanaeth ar gyfer 12 o bobl ar y tro. Y nod yw cefnogi pobl hŷn neu fregus i ddatblygu sgiliau, hyder a chryfder er mwyn dychwelyd i'w cartrefi eu hunain. Mae staff a gyflogir gan Gofal Seibiant ar gael ar y safle yn ogystal â mynediad at Feddyg Teulu lleol. Bydd y Cynllun yn helpu tuag at y broblem o'r oedi mae nifer o gleifion yn wynebu wrth adael yr ysbyty, oherwydd prinder gofalwyr cartref yn ein cymunedau.

Mae Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio i sefydlu model newydd ar gyfer gofal cartref i helpu pobl i fyw eu bywydau mor llawn â phosib yn eu cymuned. Drwy sefydlu timau lleol bydd staff gofal cartref, iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â meddygon teulu, yn dod i ddeall beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl sydd angen cymorth i fyw gartref. Byddant yn canolbwyntio ar gryfderau'r unigolion a'u cefnogi i ailgydio yn eu cylchoedd cymdeithasol a byw mor annibynnol â phosib. Bydd hyn yn disodli'r dull traddodiadol, a dueddai ganolbwyntio ar gwblhau tasgau penodol ar adegau penodol, heb yr hyblygrwydd i drafod a deall beth oedd pobl wir ei angen. Bydd pob tîm lleol yn gweithio gyda darparwr gofal cartref penodol yn eu hardal, i hwyluso ymateb i anghenion y gymuned.



Bwriad prosiect pontio'r cenedlaethau Cyngor Gwynedd yw creu cysylltiadau newydd rhwng plant a phobl o bob oedran. Bydd hyn yn cynyddu parch a dealltwriaeth rhwng y cenedlaethau ac yn arwain at gymunedau cryfach. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl o bob oedran a chefndir gan gynnig cyfleoedd i ddod i adnabod pobl ar draws y sir. Yn ystod y cyfnodau clo maent wedi cael cynllun pen-pals sydd wedi gweld 150 pâr yn llythyra i ddod i adnabod ei gilydd ac i herio unigrwydd ac ynysigrwydd. Mae prosiectau wyneb yn wyneb bellach wedi ail gychwyn a'r prosiect yn falch o gael ail ddechrau ar y gwaith o ddod a phobl ynghyd.



Mae Gwynedd Oed Gyfeillgar yn rhaglen waith newydd i Wynedd ac ers Rhagfyr 2021 maent wedi ariannu 59 prosiect er mwyn cynyddu hyder unigolion hŷn wrth iddynt ail afael yn eu bywydau cymdeithasol. Mae'r rhaglen waith wedi mynd i'r afael ag unigrwydd, ynysigrwydd ac yn gyfle i glywed lleisiau pobl hŷn ac i symud ymlaen fel rhan o adferiad Covid-19. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal yn y 5 ardal – Caernarfon, Bangor, De Meirionnydd, Eifionydd a Gogledd Meirionnydd a Llŷn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi a chlywed lleisiau.


Fel ymateb i'r sefyllfa yn Afghanistan, bu tîm o staff Cyngor Gwynedd yn gweithio'n galed tu ôl i'r llenni er mwyn cynnig cartref i ffoaduriaid o'r wlad iddynt a chymorth i ailsefydlu. Fel rhan o'r ymdrech, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r mudiad Pobol i Bobl sy'n

helpu pobl sydd mewn argyfwng drwy ddarparu cymorth a chefnogaeth bersonol, waeth beth fo'u hil, eu crefydd neu eu lleoliad. Mae hyn yn ychwanegol i'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd ers 2016 i adsefydlu ffoaduriaid trwy'r Cynllun Adsefydlu Pobol Fregus o Syria (SVPRS), gyda Phartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, i ailsefydlu a rhoi cymorth i nifer o deuluoedd i integreiddio i'r gymuned leol. Yn ogystal, o ddiwedd Mawrth aeth y Cyngor ati i sefydlu trefniadau ar gyfer croesawu a chefnogi ffoaduriaid o Wcráin drwy gydweithi gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alun a Llywodraeth Cymru i agor Canolfan Groeso yn y sir, a hefyd i gefnogi trigolion o Wynedd oedd yn cynnig lletya ffoaduriaid o dan y Rhaglen Cartrefi i Wcráin

Mae gan Gyngor Gwynedd strwythur i sicrhau ein bod yn rhoi sylw i ac yn cefnogi nifer o ddiwrnodau, wythnosau a misoedd hybu gwahanol nodweddion cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn e.e. Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Mis Hanes LHDT+, Wythnos Gofalwyr. Un arall ohonynt oedd Mis Hanes Pobl Dduon 2021 ym mis Hydref. Roedd Cyngor Gwynedd yn falch o gefnogi seremoni wobrwyo Cymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru (NWAS) a oedd yn anrhydeddu'r rhai sydd wedi helpu eraill yn eu cymuned leol mewn cyfnod anodd. Maent yn grŵp cyfunol o bobl o dras Affricanaidd a phobl sydd â diddordeb yn Affrica. Roedd y seremoni wobrwyo, a gynhaliwyd ym Mangor, yn rhoi clod i bobl sydd wedi mynd y tu hwnt i'r arferol er mwyn helpu eraill yn ystod y pandemig. Roedd pobl wedi danfon bwyd, trefnu gweithgareddau plant, helpu â phroblem unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ac annog pobl i gael eu brechiadau. Mynychodd y Cynghorydd Elwyn Jones, Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd, y seremoni a chyflwynodd wobr.



### ch. Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol



Ym mis Gorffennaf penderfynodd Cyngor Gwynedd wneud i ffwrdd ar godi tal am lyfrau a ddychwelir yn hwyr i lyfrgelloedd y sir, fel sydd eisoes yn digwydd i lyfrau plant a phobl ifanc dan 18 oed ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod y pandemig, penderfynwyd estyn dyddiadau dychwelyd yn awtomatig, a olygai nad oedd llyfrau byth yn hwyr. Pan ddaw hyn i ben ni fydd defnyddwyr yn cael eu cosbi am lyfrau a ddychwelir yn hwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes rhwystr rhag gwneud y mwyaf o'r llyfrgelloedd. Bydd unrhyw ddirwyon presennol yn cael eu dileu, gan roi llechen lan i bawb.

Yn ddiweddar, ymrwymwyd i fuddsoddi £77 miliwn yng Nghynllun Tai'r sir, i weithredu ar y weledigaeth o gartrefu pobl leol yn eu cymunedau, mewn tai addas, gwyrdd a fforddiadwy. Yn sgil hyn bu nifer o gynlluniau ym maes tai yn ystod 2021-22 i gyfarch yr argyfwng tai allai ddinistrio cymunedau, ffordd o fyw a dyfodol plant yr ardal. Yn gyntaf lansiwyd cynllun grantiau hyd at £15,000 i adnewyddu tai gwag, er mwyn cynyddu cyfleoedd i brynwyr tro cyntaf sydd â chysylltiad lleol i gael cartref fforddiadwy o fewn eu cymuned. Bydd yn rhoi cymorth i'r prynwyr i adnewyddu tai gweigion i ddod a nhw i safon byw dderbyniol. Bydd hyn hefyd yn delio â'r broblem o dai gwag gan ddod a hwy yn ôl i'r farchnad.

Enillodd y Grant Cartrefi Gwag Prynwyr Tro Cyntaf gwobr y Sefydliad Tai Siartredig ar gyfer

Cefnogi Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.  Mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod yn cydweithio i gyflawni'r cynllun £2.5 miliwn ers 2018, er bod eu cynlluniau ychydig yn wahanol, a bu i'r ddwy sir ennill y wobr.  Maent wedi helpu 155 o brynwyr tro cyntaf drwy ddefnyddio cyllid o Bremiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a chronfeydd adfywio Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hefyd wedi'i ariannu gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Ym mis Medi blaenoriaethwyd £1 miliwn ar gyfer y Cynllun Prynu Cartref yng Ngwynedd sydd yn cael ei weinyddu gan 'Tai Teg' ar ran Cynghorau Sir a Pharc Cenedlaethol Eryri.  Mae'n gynllun benthyciad ecwiti sy'n rhoi rhwng 30% a 50% o bris tŷ ar y farchnad agored, gyda'r prynwr yn ariannu'r gweddill drwy forgais a chynilon.  Bydd yn helpu pobl i fod yn berchen tŷ yn lleol pan na fyddent fel arall yn gallu fforddio prynu tŷ am y tro cyntaf, neu yn byw mewn tŷ anaddas.




Yn ogystal, am y tro cyntaf ers 30 mlynedd, mae Cyngor Gwynedd wedi cychwyn adeiladu tai fydd yn gartrefi modern o safon i bobl y sir i'w prynu ar sail rhan-ecwiti neu eu rhentu'n fforddiadwy.  Trwy'r Cynllun 'Tŷ Gwynedd', mae'r Cyngor wedi gosod uchelgais o adeiladu 100 o gartrefi ar draws y sir dros y blynyddoedd nesaf. Bwriad y cynllun ydi cynnig cartrefi fforddiadwy canolraddol i'r nifer o bobl leol sy'n methu prynu neu rentu tŷ ar y farchnad agored ac nad ydynt yn gymwys am dŷ cymdeithasol.

Mae Cyngor Gwynedd ynghyd ag amryw o bartneriaid wedi bod yn gweithio i ddod â gwres fforddiadwy, effeithiol a charbon isel yn Nhanygrisiau yn ogystal â cheisio datgarboneiddio'r tai. Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy holiadur i asesu defnydd  presennol o ynni er mwyn darganfod yr opsiwn gorau ar gyfer gwres carbon isel a fforddiadwy.  Hefyd cynhaliwyd digwyddiad ym mis Ebrill i gynnig cymorth ac ateb cwestiynau am y maes ynni.  Roedd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am grantiau sydd ar gael ar gyfer boeleri ac insiwleiddio tŷ drwy Nyth ac ECO, sut i leihau biliau, cynhesu cartrefi'n well a lleihau ôl-troed carbon.



Sefydlodd y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, Grwpiau Cymunedol ac Asiantaethau Gwirfoddol Hybiau Cefnogi mewn Cymunedau a'u rhedeg mewn 9 hwb mewn cymunedau ar gyfer cefnogi pobl gyda'u hanghenion.  Y bwriad oedd creu drws ffrynt lleol at wasanaethau, gyda nifer yn cefnogi pobl gyda materion fel mynediad i fwyd, cyngor ariannol, cyngor ar gostau byw, gweithgareddau llesiant, cyngor lletya, cefnogaeth i Waith a rhiantu.